

ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
Pwyllgor:	Pwyllgor Safonau
Dyddiad Pwyllgor :	13 Mawrth, 2019
Pwnc:	Materion Aelodau Etholedig
Pwrpas yr Adroddiad:	Diweddarau y Pwyllgor
Awdur:	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1.0 Cefndir

Diben yr adroddiad hwn ydi diweddarau 'r Pwyllgor ar wahanol faterion yn ymwneud ag Aelodau.

1.1 Adroddiadau Blynyddol Aelodau

Fe adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar drefniadau i baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer 2017/18.

Mae rhan 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdodau i sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol am eu gwaith.

Mae 29 Aelod wedi paratoi adroddiad blynyddol ar gyfer 2017/18 ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y linc isod:

<http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/adroddiad-blynyddol-gan-gynghorydd/>

Fe gyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ddiweddarach y mis hwn ar yr amserlen ar gyfer paratoi adroddiadau 2018/19 ynghyd â'r templed i'w gwblhau. Y bwriad fydd cyhoeddi adroddiadau ar wefan y Cyngor erbyn y 30 Mehefin 2019. Byddaf ym monitor cynnydd mewn ymgynghoriad ag Arweinyddion Grŵp.

1.2 Siarter Datblygu Aelodau

Adroddwyd hefyd i'r cyfarfod diwethaf ynglŷn â'r bwriad i wneud cais am ail asesiad ar gyfer Siarter Datblygu a Chefnogi Aelodau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ni fu'n bosib cyflwyno cais yn ystod chwarter 3 fel y bwriadwyd gan fod angen diweddarau'r strategaeth Datblygu Aelodau a derbyn ymateb gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar hyn yn ddiweddarach y mis hwn ac yna bwriedir anfon gwybodaeth i'r CLILC erbyn diwedd Mawrth. Fe drefnir i'r Pwyllgor Safonau dderbyn copi er gwybodaeth.

1.3 Gwiriadau DBS

Mae pob Aelod wedi cwblhau'r wybodaeth ar gyfer dibenion cofrestru. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn monitro trefniadau ar gyfer diweddarau manylion mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Dysgu.

1.4 Gwybodaeth Aelodau ar wefan y Cyngor gan gynnwys Cyrff Allanol

Mae gwybodaeth ar wefan y Cyngor ar bresenoldeb Aelodau mewn Pwyllgorau a hefyd manylion hyfforddiant Aelodau. Anogir Aelodau i ddiweddarau gwybodaeth yn rheolaidd ar lein ar ôl bod mewn hyfforddiant. Fe gyflwynir Adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor hwn ar y rhaglen Datblygu Aelodau gan gynnwys hyfforddiant ar gyfryngau cymdeithasol a chefnogaeth i baratoi tudalennau Facebook.

O ran cyrff allanol, mae linc bellach i wefannau perthnasol er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd (os oes gwybodaeth ar gael). Bydd angen adolygu'r rhestr o gyrff allanol mewn ymgynghoriad ag Arweinyddion Grŵp ac yna adrodd i'r Cyngor ym Mai 2019.

2.0 Argymhelliad:

Nodi gwybodaeth yn yr adroddiad.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
1/03/2019